



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru

Penodi Cadeirydd

Dyddiad Cau: 13 Mai 2019

Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru

Cynnwys

Gwneud cais

Atodiad A: Rôl y Cadeirydd

Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau'r Grŵp

Atodiad C: Y broses ddethol

Atodiad D: Rhestr o'r Aelodau

Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru

Gwneud Cais

Diolch am fynegi diddordeb yn y penodiad i fod yn Gadeirydd Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru. Bydd gan y Cadeirydd newydd rôl allweddol yn llunio'r agenda rheoli meddyginiaethau yng Nghymru, gan weithredu strategaeth bresgripsiynu'r Grŵp, a darparu arweiniad strategol i'r GIG yng Nghymru a'r holl randdeiliaid allweddol.

Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion ynghylch rôl y Cadeirydd a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru (y Grŵp), a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan Llywodraeth Cymru: <https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-b7da28e1fca7/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/>.

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar y swydd wag ac yna ar y botwm 'Gwneud Cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf y gwnewch gais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer y system ceisiadau ar-lein. Dim ond unwaith bydd angen ichi gofrestru a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon trwy eich cyfrif.

Ar ôl cofrestru, byddwch yn gallu cael gweld y ffurflen gais. I wneud cais bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i'r adran 'Rhesymau dros ymgeisio' ar y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol

Eich datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Dylech geisio darparu enghreifftiau sy'n dangos sut mae'ch gwybodaeth a'ch profiad yn bodloni pob maen prawf, ac sy'n disgrifio eich rôl wrth gyflawni canlyniad penodol. Mae rhoi paragraffau ar wahân ar gyfer pob maen prawf yn arfer gyffredin.

Ni ddylai'r datganiad personol fod yn hwy na dwy dudalen. Mae'n bosibl y caiff eich cais ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.

CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Amserlen fras

Dyddiad Cau: 13 Mai 2019
Creu rhestr fer: 16 Mai 2019
Cyfweliadau: 20 Mehefin 2019

Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell.

Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru

Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i ymgeisio am benodiadau i gyrrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu yn arbennig geisiadau gan bob grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl dduon, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.

Cynllun Gwarantu Cyfweliad - Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun Cadarn o Blaid Pobl Anabl. Mae'r cynllun yn gwarantu cyfweliad i bobl anabl os ydynt yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae'r ffurflen gais hefyd yn eich galluogi i nodi unrhyw anghenion penodol sydd gennych neu offer penodol y gall fod ei angen arnoch os cewch wahoddiad i gael cyfweliad.

Pwy sy'n cael gwneud cais

Dylai'r ymgeiswyr fod yn unigolion sy'n ymddwyn mewn modd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd ar bob adeg.

Dylai ymgeiswyr hefyd nodi y bydd bod yn aelod o'r Grŵp yn golygu na fyddant yn gymwys i fod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwys) 2015.

<http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2015/1536/contents/made>

Gwrthdaro Buddiannau

Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Aelod o'r Grŵp, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl yn y Grŵp.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweliad. Os cewch eich penodi, bydd gofyn ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi arfer safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gadw at y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus, a gallwch weld y ddogfen hon yma:

<http://www.bl.uk/aboutus/governance/blboard/Board%20Code%20of%20Practice%202011.pdf>.

Cysylltiadau:

I gael rhagor o wybodaeth am y rôl, cysylltwch â Darren Ormond

Ffôn: 03000 255621, neu e-bost: darren.ormond@llyw.cymru.

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch i wneud cais am y swydd hon, cysylltwch ag Uned Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru: PublicAppointments@llyw.cymru.

Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Disgrifiad o'r Rôl

Bydd y Cadeirydd a benodir yn:

- Chwarae rhan allweddol wrth lunio'r agenda rheoli meddyginiaethau yng Nghymru, a gweithredu strategaeth bresgripsiynu'r Grŵp
- Darparu cyfeiriad strategol i'r GIG yng Nghymru a'r holl randdeiliaid allweddol
- Chwarae rhan bwysig yn sicrhau bod gwaith Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan yn helpu'r Pwyllgor a GIG Cymru i gyflawni eu hamcanion strategol
- Cyfrannu at ddatblygu partneriaethau arloesol sydd o fudd i gleifion
- Sicrhau'r canlyniadau gorau o'r defnydd o feddyginiaethau yng Nghymru
- Cadeirio hyd at ddeg cyfarfod o'r Grŵp bob blwyddyn, ac yn aelod o Bwyllgor Llywio'r Grŵp sy'n cwrdd bob mis

Manyleb y Person

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y priodoleddau, y sgiliau a'r galluoedd i fodloni pob un o'r meini prawf **hanfodol** ar gyfer cael eich penodi.

- Gwybodaeth am y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a sut mae'n gweithredu yng Nghymru, ynghyd â diddordeb ynddo a gwybodaeth fanwl am faterion fferyllol sy'n effeithio ar gleifion
- Y gallu i gyfathrebu'n argyhoeddiadol, a'r gallu i gadeirio cyfarfodydd yn effeithiol a chefnogi datblygiad pwyllgorau a swyddogaethau gweithredol
- Tystiolaeth o sgiliau arwain cryf, effeithiol ac amlwg
- Dealltwriaeth o bwysigrwydd safonau uchel mewn bywyd cyhoeddus a phwysigrwydd meithrin cysylltiadau â chleifion a'r cyhoedd
- Llwyddiant blaenorol yn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol neu breifat
- Y gallu i arddangos arweinyddiaeth gynhwysol o ran amrywiaeth ynghyd â dealltwriaeth glir o faterion cydraddoldeb ac ymrwymiad iddynt.

Priodoleddau a Sgiliau Personol

- Y gallu i ysgogi ac ysbrydoli staff
- Sgiliau cyfathrebu da
- Ymgysylltu â staff a chynrychiolwyr staff ar bob lefel o fewn y sefydliad
- Ymrwymiad a phenderfyniad, ynghyd â'r gallu i feithrin gweledigaeth a datblygu strategaethau wedi'u diffinio, er mwyn cyflawni nodau hirdymor a thymor byr

Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru

Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan fenywod, pobl anabl ac unigolion o leiafrifoedd ethnig sy'n gyfarwydd â'r maes presgripsiynu a fferyllol, sydd â diddordeb gwirioneddol yng ngwaith y Grŵp ac sy'n gallu cyfrannu at y gwaith o sicrhau ei fod yn gorff cyhoeddus sy'n perfformio'n dda.

Y Gymraeg

Nid yw sgiliau'r Gymraeg yn ofynnol ar gyfer y swydd hon.

Aelodaeth

Mae rhestr o'r aelodau wedi'i hatodi yn Atodiad C er gwybodaeth.

Ysgrifenyddiaeth

Darperir cymorth ysgrifenyddol a phroffesiynol i'r Grŵp gan Ganolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan, sef sefydliad ambarél y Grŵp.

Telerau'r Penodiad

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fydd yn gwneud y penodiadau.

Hyd y Penodiad

Bydd y penodiad am gyfnod cychwynnol o 4 blynedd, a gall gael ei adnewyddu, yn amodol ar adolygiad boddhaol.

Ymrwymiad Amser

Bydd disgwyl i'r Cadeirydd fod ar gael i weithio o leiaf 30 diwrnod y flwyddyn gan y bydd y Grŵp yn cyfarfod o leiaf 10 gwaith y flwyddyn. Bydd hyn yn cynnwys mynychu Cyfarfodydd misol Pwyllgor Llywio'r Grŵp a chyfarfodydd ad hoc eraill yn ôl yr angen.

Lleoliad y Cyfarfodydd

Yn Ysbyty Llandochau, Caerdydd y cynhelir cyfarfodydd y Grŵp fel rheol.

Tâl

Mae'r swydd hon yn ddigyflog ond bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus hawl i gael tâl cydnabyddiaeth o £337 y dydd. Gellir hawlio costau teithio ac unrhyw gostau rhesymol eraill (gan gynnwys costau meddygon locwm) sy'n codi wrth gyflawni gwaith ar ran y Grŵp o fewn y terfynau cydnabyddedig. Gallech hefyd fod yn gymwys i hawlio ad-daliad am gostau yn gysylltiedig â gofal plant/gofal yr henoed/gofalwr cynorthwyol, tra byddwch yn gweithio ar ran y Grŵp.

Dyddiad cychwyn

1 Gorffennaf 2019

Cefndir

Mae'r Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru a sefydlwyd yn 2002 yn bwyllgor cyngori gwyddonol anstatudol sy'n rhoi cyngor i Weinidogion Cymru mewn modd effeithiol, effeithlon a thryloyw ar bresgripsiynu a rheoli meddyginiaethau'n strategol.

Mae proses werthuso'r Grŵp, a gydnabyddir gan Gynllun Achredu Tystiolaeth y GIG, yn rhoi hawl i gleifion yng Nghymru gael mynediad i feddyginiaethau fel mater o drefn, a hynny cyn i'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) eu gwerthuso.

Rôl y Pwyllgor

Mae'r Grŵp yn dwyn ynghyd banel o arbenigwyr gan gynnwys meddygon a fferyllwyr y gwasanaeth iechyd yn ogystal ag academyddion gofal iechyd, economegwyr iechyd, cynrychiolwyr o'r diwydiant, eiriolwyr cleifion a chynrychiolwyr lleig eraill er mwyn dod i benderfyniad ynghylch defnyddio meddyginiaethau newydd yn y GIG yng Nghymru. Mae'n datblygu polisiau sy'n hyrwyddo'r defnydd gorau o feddyginiaethau ar gyfer cleifion yng Nghymru. Mae'r penderfyniadau hyn yn effeithio ar faterion rheoli meddyginiaethau yn y sector gofal sylfaenol ac eilaidd. Prif flaenoriaethau'r Grŵp yw:

- Cyngori Gweinidogion Cymru ar dechnolegau newydd a rheoli meddyginiaethau er mwyn gallu cynllunio'n strategol
- Datblygu cyngor amserol, annibynnol ac awdurdodol ar feddyginiaethau newydd ac ar y goblygiadau o ran cost o sicrhau bod y meddyginiaethau hyn ar gael fel mater o drefn
- Cyngori Llywodraeth Cymru ar y gwaith o ddatblygu strategaeth feddyginiaeth gyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n effeithiol o ran cost ar gyfer Cymru.

Caiff gwaith y Grŵp ei gynllunio drwy Bwyllgor Llywio Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan. Mae'r pwyllgor hwn yn blaenoriaethu rhaglen waith y Grŵp i sicrhau y caiff ei adnoddau eu defnyddio'n effeithlon.

Mae'r Grŵp yn gweithio'n agos gyda NICE i ategu rhaglen Werthuso Technoleg Iechyd NICE.

Mae holl gyfarfodydd y Grŵp ar agor i'r cyhoedd.

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiadau personol yr ymgeiswyr i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael gwahoddiad i gael cyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Byddwch cystal â sicrhau eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Cadeirydd y panel dethol fydd Andrew Evans (Llywodraeth Cymru) a bydd hefyd yn cynnwys a Sian Lewis (WHSSC) a Meindert Boyson (NICE).

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, gallai eich cais gael ei roi ar "restr hir", cyn iddo gael ei anfon ymlaen at y panel a fydd yn paratoi'r rhestr fer i'w hystyried. Dylech fod yn ymwybodol ei bod yn bosibl na chaiff eich cais ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad erbyn Mai 2019.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn credu sydd wedi dangos eu bod yn bodloni orau'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person a fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Er hynny, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, byddwch hefyd yn cael eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac os nad yw dyddiad y cyfweliad wedi'i ddarparu eisoes yn y pecyn gwybodaeth, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Byddwch yn cael neges e-bost o'r system Penodi i roi gwybod ichi a ydych wedi cael eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Rydym yn bwriadu cynnal y cyfweliadau yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a bennwyd ar gyfer y rôl.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu sy'n addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gallai Ysgrifennydd y Cabinet ddewis cyfarfod ag un neu fwy o'r ymgeiswyr hynny cyn penderfynu.

Os byddwch yn llwyddiannus, fe gewch lythyr yn eich penodi'n Gadeirydd Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru, a fydd hefyd yn cadarnhau'r telerau ar gyfer cynnig y penodiad.

Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweiliad, rhoddir gwybod i chi. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech er mwyn ymgeisio am rolau, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth am eich cyfweiliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau a chwynion

I wneud ymholiad am eich cais neu i gyflwyno cwyn, cysylltwch â'r Uned Penodiadau Cyhoeddus: PublicAppointments@llyw.cymru.

Os nad ydych yn hollol fodlon

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych gwynion am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, cysylltwch â'r Uned Penodiadau Cyhoeddus ar 03000 61 6095 / 03000 25 3762 neu anfonwch e-bost at publicappointments@llyw.cymru.

Aelodau'r Grŵp

Mae'r Grŵp yn cynnwys yr aelodau canlynol sydd â hawliau pleidleisio:

- Yr Athro John Watkins, Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Dr Sian Lewis – Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
- Yr Athro Dyfrig Hughes – Economegydd Iechyd, Prifysgol Bangor
- Mr Rob Thomas – Cynrychiolydd ABPI Cymru
- Mr Christopher Palmer – Aelod Ileyg
- Mr Stefan Fec – Fferyllydd Cymunedol, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan
- Dr Mark Walker – Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Dr Jeremy Black – Ymarferydd Cyffredinol â rôl arweiniol ar bresgripsiynu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Mrs Susan Murphy – Uwch Fferyllydd Gofal Sylfaenol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Mr Stuart Davies – Cyfarwyddwr Cyllid, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
- Mr Roger Williams – Cynrychiolydd Uwch Fferyllwyr mewn Ysbytai, Ysbyty Treforys, Abertawe
- Mrs Louise Williams – Cynrychiolydd Uwch Nyrsys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
 - Dr Anwen Cope – Cynrychioli'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sy'n gymwys i bresgripsiynu, Prifysgol Caerdydd
 - Dr Emma Mason – Ffarmacolegydd Clinigol, Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd
 - Dr Catherine Bale – Cynrychiolydd Meddygon Ymgynghorol mewn Ysbytai, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr